# Ymateb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Ymgynghoriad: Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

## Cyflwynir yr ymateb gan Emyr Williams, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Dymunwn ddiolch yn fawr am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn wedi rhoddi ystyriaeth lawn i'r chwe mater a gyflwynwyd gennych a gwelwch ein sylwadau isod. Rydym yn nodi fod cyfle yn ogystal i ymhelaethu ar y pwyntiau isod trwy gymryd rhan yn yr ymgynghorid o gyflwyno tystiolaeth ar lafar ym mis Ionawr 2021, a chroesawn y cyfle yna yn ogystal.

| | |
|---|---|
| 1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau. | 1.1 Mae ein dealltwriaeth o'r Ddeddf fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn dda, ac yn cael ei ddefnyddio'n llawn i lywio gweithgarwch cydweithredol y BGC. Rydym yn ymdrechu i wneud penderfyniadau sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion hirdymor .<br><br>1.2 Mae'r BGC wedi rhoi egwyddorion y Ddeddf fwyfwy ar waith wrth ymateb i'r argyfwng Covid_19. Bu i'r BGC mewn gweithdy diweddar roddi ystyriaeth i'r materion sy'n effeithio ar ein cymunedau yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gyda ffocws ar adfer llesiant a gwytnwch cymunedol. |
| 2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio. | 2.1 Unwaith yn rhagor cyflwynir yr ymateb o safbwynt y BGC. Mae'r adnoddau a ddarperir i'r BGC ymgymryd â'i weithgaredd yn brin iawn.<br><br>2.2 Mae'r risg ganlynol wedi'i nodi ar gofrestr risg y BGC sef diffyg cyllid, adnoddau a chymhwysedd gan y BGC i gyflawni ei waith .<br><br>2.3 Er bod cynnig o grant Rhanbarthol o tua £80k wedi ei wneud yn y gorffennol, fe adroddwyd fod y meini prawf yn |

| | |
|---|---|
| | anhyblyg a buasai yn well alinio' defnydd o'r grant i'r 5 ffordd o weithio. Wrth gyfeirio at adnoddau sydd ar gael i gefnogi gweithredu'r Ddeddf hon, mae'n bwysig nodi fod cyllid wedi bod ar gael i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n caniatáu iddynt gyflawni yn unol â'u cynlluniau strategol |
| 3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus. | 3.1 Mae lefel y cymorth mae'r BGC yn ei dderbyn gan y Comisiynydd yn dderbyniol. Nid oes cyswllt rheolaidd, ond yn hytrach derbynnir cyngor a her ar bwyntiau penodol e.e. cyhoeddi'r Asesiadau Llesiant.<br><br>3.2 Mae Rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn. Ar lefel weithredol y BGC adroddwyd fod swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gefnogol ac yn ymateb i'w ceisiadau / ymholiadau yn brydlon. |
| 4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. | 4.1 Mae'r BGC yn derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar bwyntiau penodol. Ceir arweiniad a chyswllt gan Lywodraeth Cymru ar lefel weithredol y BGC yn bennaf. Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith yn aml, ac mae'r cynnwys a'r fformat wedi bod yn amserol ac yn addas i gynnal trafodaeth dda.<br><br>4.2 Credwn y byddai'n llawer mwy effeithiol alinio amserlenni cyflwyno cynllun y BGC a chynlluniau awdurdodau lleol. Credwn y gall LIC ddylanwadu ar hyn. Fel y cyrff sydd fwyaf niferus yng Nghymru, ac fel cyrff sy'n cael eu harwain yn ddemocrataidd, byddai'n ddefnyddiol cydamseru dyddiadau cyhoeddi cynllun llesiant BGC â chylchoedd etholiadau awdurdodau lleol. |
| 5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati). | 5.1 Mae Covid_19 a Brexit yn heriau fydd y BGC a'r cyrff unigol yn eu hwynebu ac yn gorfod ymateb iddynt. Yn ogystal: |

| | |
|---|---|
| | 5.2 Nid yw cylchoedd cynllunio corfforaethol y cyrff statudol ac eraill yn cyd-fynd, felly mae cael blaenoriaethau i gyd blethu yn anodd,<br><br>5.3 Nid yw lefel dealltwriaeth y cyrff yn gyson am y wahanol feysydd, felly mae hi'n anodd weithiau cael consenswS. Mae amser a magu ymddiriedaeth, dealltwriaeth a hyder yn allweddol yn hyn.<br><br>5.4 Mae addasu i'r pum ffordd o weithio yn her, yn enwedig pan fydd y gwasanaethau dan straen. |
| 6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol? | 6.1 Fel y cyfeiriwyd ym mhwynt 2 uchod, buasai adnoddau i wireddu ein hamcanion a'n blaenoriaethau o fudd mawr i weithredu'r Ddeddf. Dylid ystyried datblygu meini prawf y grant rhanbarthol gyda chydlynwyr BGC er mwyn sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn berthnasol ac yn gallu cefnogi cynnydd y gwaith yn effeithiol.<br><br>6.2 Yn ogystal mae hi'n ddyddiau cynnar i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â gwireddu eu hamcanion llesiant yn unol â gofynion y Ddeddf. O ystyried hyn, ni ddylai unrhyw newid ar raddfa fawr gael ei gyflwyno. |

Diolch unwaith eto am y cyfle i gynnig sylwadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Gobeithir yn fawr y bydd ein sylwadau yn derbyn yr ystyriaeth haeddiannol. Byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn ymateb i'n sylwadau ac awgrymiadau.